

Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Kitty Parry (Llanefydd). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i merch, Beryl Rogers (Llanefydd) a'r teulu, ac â'i chwaer, Bessie Owens (Cefn Berain) a'i theulu. Yr un yw'n cydymdeimlad hefyd gyda gweddill ei phlant a'u teuluoedd. Gweddiwn y byddwch oll yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth ichi yn eich colled.

Anfonwn ein cofion at Margaret Jones (Llansannan) a Bessie Owens (Cefn Berain) ac eraill o'n plith sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a hefyd Doreen Evans (Llansannan) dreuliodd ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Fe'ch cyflwynwn chwi oll i ofal Duw a gweddiwn y byddwch yn cael adferiad iechyd llwyr a buan.

Llongyfarchiadau i Elwy ac Elena Owen (Llanefydd) sydd newydd ddatlu penblwydd priodas arbennig ac i Lowri Williams (Llanefydd) ar achlysur ei phriodas. Bendithion lu i chi i'r dyfodol.

I ddod

- **SESIWN HYFFORDDIANT DIOGELU GRWPIAU BREGUS** – Mewn eglwysi lle cynhelir gwaith gyda phlant/ieuenctid/oedolion bregus, mae'n RHAID i athrawon Ysgol Sul, gwirfoddolwyr clybiau plant a ieuenctid, ymwelwyr bugeiliol, blaenoriaid ac ymddiriedolwyr dderbyn gwiriad trwy lenwi ffurflen DBS, a hefyd i fynychu hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus. Mae sesiwn hyfforddiant wedi'i drefnu gan Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng Nghapel Trefnant nos Fawrth, Mehefin 11eg o 6.30 – 9.00 yr hwyr. Mae'r sesiwn yn agored i bawb ond yn hanfodol i unrhyw un sy'n ffitio'r categori uchod, ac sydd heb fynychu hyfforddiant o'r blaen.
- **DARLITH AR FYWYD A GWAITH HENRY REES I NODI 150 MLYNEDD ERS EI FARWOLAETH** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Wener, Mehefin 14eg am 7.30 yr hwyr. Y darlithydd fydd y Parch. Goronwy Prys Owen a bydd croeso cynnes i bawb. (Trefnwyd gan Gymdeithas Dydd yr Arglwydd.)
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala nos Wener a dydd Sadwrn, Mehefin 14eg-15fed. Bydd noson o fawl a dysgeidiaeth ar y nos Wener, ac yna ar y dydd Sadwrn y brif siaradwraig fydd Mari Williams o Gaernarfon, a bydd Gwawr Davies, Cefn Meiriadog ac aelod o dîm A21 yno yn y prynhawn i drafod y gwaith anhygoel mae'r elusen yn ei wneud ar draws y byd. Cofrestrwch ar-lein ar wefan www.colegybala.org neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565.



Llais Bro Aled

Mai 26^{ain} a Mehefin 2^{il}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

'Molwch yr Arglwydd. Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth'. (Salm 106:1)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i foli'r Arglwydd yn ein gwahanol oedfaon ar draws Bro Aled heddiw. Wrth i ni wneud hynny, cofiwn pwy yw'r Duw yr ydym yn ei addoli – yr un sy'n Dad, yn Fab ac yn Ysbryd Glân sy'n llawn daioni a'i gariad yn ddiiddiwedd. Ac oherwydd marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, gallwn brofi'r cariad hwnnw ein hunain, dim ond i ni droi ato Ef ac ymddiried ynddo.

Gan y bydd hi'n wythnos hanner tymor o ddydd Llun ymlaen, dyma gyfle gwych i mi dymuno'n dda i bawb o blant, ieuenctid a theuluoedd y Fro fydd yn gwneud y daith hir i lawr i Eisteddfod yr Urdd yn y brifddinas. Dwi'n siŵr y bydd nifer fawr o bobl yn eithriadol o falch o'ch llwyddiant beth bynnag fydd yn digwydd yn y rhagbrofion neu ar y llwyfan! Rhywbeth cadarnhaol yw bod yn falch dros rywun arall a gallu llawenhau yn noniau neu lwyddiannau eraill, ond defnyddir y gair balchder mewn ffordd arall yn y Beibl hefyd. Ystyriwch Diarhebion 16:8 sy'n ddywediad Saesneg cyfarwydd: 'Daw balchder o flaen dinistr, ac ymffrost o flaen cwmp.' Ac mae'r Testament Newydd yn rhybuddio am falchder hefyd: '“Mae Duw yn gwrthwynebu pobl falch ond mae'n hael at y rhai gostyngedig.” Os wnewch chi blygu i awdurdod Duw a chydabod eich angen, pan ddaw'r amser bydd e'n eich anrhydeddu chi.' (1 Pedr 5:5-6 Beibl.net)

Natur balchder personol o'r math hwn yw ei fod yn cyd-fynd ag agwedd hunangyfiawn a hunan ddibynnol – y meddylfryd cyffredin lle'r ydym yn tybio bod ein llwyddiannau yn deillio o'n dawn neu'n gwaith caled ein hunain, a'r methiannau yn fai ar bobl eraill. Mae'n eithriadol o anodd i'r person balch allu disgyn ar eu bai a chydabod eu bod angen help oherwydd bod ganddynt y fath feddwl o'u hunain.

Yn ysbrydol, does dim lle llawer peryclach i fod 'na methu cydnabod ein bod angen cymorth, oherwydd dyna'r union feddylfryd sydd un ai'n diystyru'r Arglwydd yn llwyr, neu'n ei wneud yn was i'n dymuniadau ni. Tybed faint o hyn sydd i'w weld yn ein calonnau ni?

Sut ydym ni felly i fynd i'r afael â balchder yn ein bywydau ein hunain? Mae'r dyfyniad uchod o Pedr yn rhoi awgrym cryf o'r man cychwyn – plygu i awdurdod Duw trwy gydnabod ein heuogrwydd a'n hangen am ei gymorth Ef. Yn ymarferol, golyga hyn ddod mewn ffydd at yr Un sy'n addfwyn ac yn ostyngedig gan blygu iddo fel Achubwr ac Arglwydd. A phan fydd balchder yn codi ei ben eto, gallwn ofyn i'n hunain, os nad ydw i angen help, pam fu rhaid i Iesu farw?

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 26^{ain}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu.
- Gwener – Sul, Mai 31^{ain} – Mehefin 2^{il}
- **Slam (11-15 oed)** – Penwythnos llawn chwaraeon a hwyl a chyfle i ystyried cwestiynau am fywyd a ffydd yng Ngholeg y Bala, cwrs sydd wedi ei drefnu ar y cyd gan Scripture Union a Choleg y Bala. Cost y penwythnos yw £69 gyda'r ail neu drydydd plentyn o unrhyw deulu yn cael mynd am hanner pris. Mae Scripture Union hefyd yn cynnig gostyngiad i rai teuluoedd os ydy'r gost yn ormod iddynt – bydd angen holi am eu '*holiday fund*' pan yn archebu arlein. Archebwch le mor fuan â phosibl ar wefan www.scriptureunion.org.uk/3725084.id Cysylltwch â naill ai Scripture Union 01766 239347 neu Coleg y Bala 01678 520565 am fwy o wybodaeth.
- Sul nesaf – 2^{il}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 5^{ed}
Gwener – 7^{fed}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
 - **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 9^{fed}
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2.30. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso i bawb.
 - **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 26^{ain}
- Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
 - Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul nesaf – 2^{il}
- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith (Henllan, Groes, Llanefydd a Cefn Berain) **yn Henllan** am 10.30.
- Sul canlynol – 9^{fed}
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
 - Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00.
 - Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 26^{ain}
- Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
 - Bydd y Parch. David Owens hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 2^{il}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Saron am 10.00.
- Sul canlynol – 9^{fed}
- Bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
 - Bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 26^{ain}
- Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 y bore a'r Ysgol Sul yn dilyn am 10.30.
 - Cynhelir Ysgol Sul yn Llansannan am 10.00 a bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa am 11.00.
- Sul nesaf – 2^{il}
- Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith (Llanfair, Cefn Meiriadog a Llansannan) **yn Llanfair** am 10.30.
- Mercher – 5^{ed}
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (2^{il})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 9^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
 - Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.

Agor y Llyfr (i sylw aelodau Saron, Peniel, Nantglyn a Groes)

Mae 'Agor y Llyfr' yn gynllun sy'n galluogi eglwysi i greu cysylltiad gyda'u hysgol leol trwy ymweld yn gyson i ddarllen stori Feiblaidd i'r plant.

Bwriedir cychwyn gweithredu'r cynllun – ar y cyd ag aelodau o Ofalaeth Bro Dinbych – yn Ysgol Pant Pastynog, a bydd angen tîm o bobl o eglwysi lleol i fod ar rota i gyflwyno'r storiâu. Mae'r cynllun yn defnyddio Beibl Newydd y Storiwr ynghyd â llyfrau Agor y Llyfr sy'n rhoi syniadau a chyflwyniad i bob stori, ac yn defnyddio drama, meim, props a gwisgoedd i gyflwyno straeon y Beibl mewn ffyrdd bywiog... a llawn hwyl i bawb!

Os oes gennych ddiddordeb i fod yn rhan o'r cynllun, bydd noson o hyfforddiant yn cael ei gynnal yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr nos Fercher, Mehefin 5ed am 7.00 yr hwyr. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Carole Collins (Prion).

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (5^{ed}), os gwelwch yn dda.